O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 168 (Cy. 27)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Sefydlodd Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998 ("Gorchymyn 1998") Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru a rhoi effaith i nifer o adrannau o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 mewn perthynas â'r corff hwnnw. Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 1998 o ganlyniad i Ddeddf Addysg 2011, sy'n darparu ar gyfer diddymu Cyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 1998 fel bod cyfeiriad at Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr yn cael ei hepgor.

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 168 (Cy. 27)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2012

*Gwnaed* *20 Ionawr 2012*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *26 Ionawr 2012*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 8(1) a (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**):

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod y daw adran 7 o Ddeddf Addysg 2011(**3**) i rym.

**Diwygio Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998**

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 1998(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 3 hepgorer y geiriau "as they have effect in relation to the General Teaching Council for England".

(**1**) 1998 p.30.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 8(1) a (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2011 p. 21

(**4**) O.S. 1998/2911 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/2940 (Cy.281).

*Leighton Andrews*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

20 Ionawr 2012